Deall Dyneiddiaeth

# BETH MAE DYNEIDDWYR YN EI WERTHFAWROGI?

**Mae bywyd yn werthfawr. Dylem ni ddod o hyd i'r hyn sy'n ein gwneud ni'n hapus a gwneud y gorau o'n bywydau. Dylem ni hefyd geisio helpu pobl eraill i wneud yr un peth.**



LAUREN

Rwy'n gwerthfawrogi **byd natur** o fy nghwmpas. Hebddo, ni fyddem yn goroesi a'r byd hwn yw'r unig un sydd gennym. Mae'n destun harddwch a **rhyfeddod**, a dylem ni ofalu amdano.



JENNY

I mi, un o'r pethau pwysicaf mewn bywyd yw ffurfio **cyfeillgarwch a pherthynas** dda ag eraill. Dylem ni gofio bod pob bod dynol ledled y byd yn rhan o un teulu estynedig.



GUY

Mae bodau dynol wedi gwneud **cynnydd** anhygoel yn ein dealltwriaeth o'r byd, ac ym maes iechyd, addysg a lles pobl. Dylem ni weithio tuag at helpu'r genhedlaeth nesaf i barhau â'r cynnydd hwnnw.



JESSICA

Dylem ni ddathlu ein **cyflawniadau** niferus, fel gwyddoniaeth, meddygaeth, technoleg, celf, cerddoriaeth a llenyddiaeth. Dylem ni geisio manteisio i'r eithaf ar ein doniau a'n galluoedd.



ALEX

**Rwy'n gwerthfawrogi ein chwilfrydedd a'n gallu i ofyn cwestiynau. Trwy feddwl yn ofalus am yr atebion a chwilio am dystiolaeth, rydym ni wedi gallu darganfod cymaint am ein byd.**



IAN

I mi, **rhyddid** yw un o'r pethau pwysicaf mewn bywyd: y rhyddid i gredu'r hyn rwy'n dymuno ei gredu ac i fyw fy mywyd sut bynnag rwy'n dymuno'i wneud, ar yr amod nad wyf i'n achosi niwed i eraill.



IMTIAZ

Dylem ni weithio i wella ansawdd bywyd pob bod dynol. Dylem ni fod ag **empathi** tuag at eraill a'u trin fel y byddem ni'n dymuno cael ein trin. Dylem ni ofalu am ein gilydd.



ZENA

© HUMANISTS UK 2021